Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Penodi Cadeirydd

Dyddiad cau: 12 Medi 2025

Gwneud cais **3**

Atodiad A: Cefndir a Rôl yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol **6**

Atodiad B: Rôl a Chyfrifoldebau'r Cadeirydd

Manyleb y person **8**

Atodiad C: Y broses ddethol **13**

Gwneud cais

Diolch am eich diddordeb yn y penodiad i fod yn Gadeirydd yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol ('yr Athrofa').

Bydd sefydlu'r Athrofa yn ei gwneud yn bosibl cynllunio mewn ffordd fwy cadarn a sicr ar lefel genedlaethol, i gefnogi pobl i ddysgu Cymraeg a hwyluso eu cynnydd fel bod mwy o bobl (o bob oedran) yn dysgu'r iaith. Mae hwn yn gyfle cyffrous i chwarae rhan allweddol yn y broses o gefnogi a darparu cyfeiriad i'r corff statudol newydd hwn.

Mae rôl newydd y Cadeirydd yn rôl hanfodol a fydd yn helpu i lywio'r corff newydd, gan ddarparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol i sicrhau y bydd yr Athrofa yn barod i gyflawni ei gwaith hanfodol yn sgil sefydlu'r corff newydd ar 1 Awst 2027.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Cymru gyfan
Ymrwymiad amser:	Mae angen gallu ymrwymo i hyd at bum diwrnod y mis unwaith y bydd y corff wedi'i sefydlu'n llawn.
Hyd y penodiad:	Mae'r penodiad am gyfnod o hyd at bum mlynedd.
Tâl cydnabyddiaeth:	Telir £256 y diwrnod i'r Cadeirydd am ymrwymiad amser o ryw bum diwrnod y mis. Bydd gan yr Athrofa gynllun i ad-dalu treuliau teithio a chostau rhesymol eraill a ysgwyddir wrth gyflawni'r rôl. Ni thelir cyfraniad pensiwn. Ni fydd y Cadeirydd yn cael ei gyflogi gan yr Athrofa na Gweinidogion Cymru ac, felly, ni fydd ganddo hawliau 'cyflogai' o dan ddeddfwriaeth cyflogaeth.

Mae'r Atodiadau ynghlwm yn rhoi manylion am rôl y Cadeirydd, ei gyfrifoldebau a manyleb y person, cefndir a rôl yr Athrofa, a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i dudalen swyddi gwag Llywodraeth Cymru. Cliciwch ar y swydd wag y mae gennych ddiddordeb ynddi ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf y gwnewch chi gais am swydd drwy system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru, bydd angen ichi gofrestru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru. Gallwch wedyn gadw golwg ar hynt eich cais presennol, ac unrhyw geisiadau yn y dyfodol, drwy eich cyfrif cofrestredig ar-lein.

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais a'i chwblhau. I wneud cais, bydd angen ichi lwytho datganiad personol a CV gyda'ch ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Eich dewis chi yw sut i gyflwyno'r wybodaeth. Serch hynny, dylech geisio darparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn bodloni pob maen prawf, a'ch rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol.

Bydd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i'r meini prawf. Mae'n arferol neilltuo paragraffau ar gyfer pob maen prawf.

Ni ddylai'ch datganiad personol fod yn fwy na 2 (dwy) dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu'ch swydd ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y rôl hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol blaenorol neu bresennol.

Amserlen fras

Dyddiad cau	12 Medi 2025
Llunio rhestr fer	I'w gadarnhau
Cyfweliadau	I'w gadarnhau

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth cael cyrff cyhoeddus sy'n adlewyrchu amrywiaeth eang o ddiwylliannau, hunaniaethau a chefndiroedd. Rydym yn annog ceisiadau o bob rhan o gymdeithas ac rydym am benodi o'r gronfa dalent ehangaf a mwyaf amrywiol.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb heb ystyried oedran, statws priodasol (gan gynnwys priodas rhwng pobl o'r un rhyw) a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, amhariad neu gyflwr iechyd, hil, crefydd neu gred, na beichiogrwydd.

Rydym wedi ymrwymo i recriwtio menywod, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl ac aelodau o'r gymuned LHDTC+, sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi ar fyrddau cyrff cyhoeddus ar hyn o bryd.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu anablu pobl sydd ag amhariad neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio laith Arwyddion Prydain.

Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd, sef “amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd”.

Rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni’r ‘meini prawf sylfaenol’ yn golygu bod yn rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod, yn gyffredinol, yn bodloni’r lefel cymhwysedd ar gyfer y rôl a’ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai 'hanfodol'.

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio laith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru cyn gynted â phosibl i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus

E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl yr Athrofa a rôl y Cadeirydd, cysylltwch â:

Bethan Webb

Ffôn: 03000 256 565

E-bost: Bethan.Webb@llyw.cymru

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Atodiad A

Cefndir a Rôl yr Athrofa

Mae'r gwaith o sefydlu'r Athrofa yn cael ei reoli gan Is-adran Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Bydd yr Athrofa yn cael ei sefydlu yn gorff hyd braich gweithredol Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Mae'r Ddeddf yn nodi y bydd yr Athrofa yn cael ei sefydlu ar 1 Awst 2027.

Er mwyn paratoi ar gyfer y corff newydd, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wedi cytuno y dylid penodi Cadeirydd erbyn Ebrill 2026. Bydd modd i'r Cadeirydd fynd ati wedyn i greu rhan o'r panel recriwtio ar gyfer penodiadau allweddol eraill ac aelodau eraill o'r bwrdd, a chyfrannu hefyd at y trefniadau angenrheidiol i sefydlu'r Athrofa.

Bydd creu'r Athrofa yn ei gwneud yn bosibl cynllunio mewn ffordd fwy cadarn a sicr ar lefel genedlaethol, i gefnogi pobl i ddysgu Cymraeg a hwyluso eu cynnydd fel bod mwy o bobl (o bob oedran) yn dysgu'r iaith. Pwrpas cyffredinol yr Athrofa yw hwyluso a chefnogi trefniadau dysgu Cymraeg gydol oes.

Yr amcanion/dyletswyddau lefel uchel ar gyfer yr Athrofa yw:

- darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol i ddarparwyr dysgu Cymraeg;
- darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a gwella lefelau gallu yn Gymraeg i'r rhai sydd dros oedran ysgol gorfodol;
- darparu deunyddiau dysgu Cymraeg, neu hwyluso'r broses o ddarparu'r rhain;
- datblygu cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer dysgu Cymraeg i'r rhai sydd dros oedran ysgol gorfodol, a threfnu darpariaeth i hwyluso cynnydd ar hyd y lefelau cyfeirio cyffredin;
- cynllunio a datblygu darpariaeth dysgu Cymraeg ar gyfer y rhai dros oedran ysgol gorfodol, neu hwyluso gwaith o'r fath. Rhaid i'r ddarpariaeth gynnwys amrywiaeth o lefelau dysgu, yn seiliedig ar y lefelau cyfeirio cyffredin;
- cynllunio datblygiad y gweithlu addysg a darparu hyfforddiant i wella dulliau addysgu'r Gymraeg;
- casglu a chyhoeddi data am ddysgwyr Cymraeg.

Ar hyn o bryd mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ('y Ganolfan') yn ymgymryd â rhai o'r swyddogaethau a fydd yn cael eu cyflawni gan yr Athrofa o fis Awst 2027 ymlaen. Mae'r Ganolfan yn cael ei hariannu drwy grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru, ac fe'i sefydlwyd yn dilyn proses grant gystadleuol yn 2016 fel cwmni cyfyngedig o dan warant heb gyfalaf; ac yn eiddo llwyr i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Bydd y trefniant grant presennol ar gyfer y Ganolfan yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2027.

Rôl y Bwrdd

Bydd y bwrdd yn cynnwys aelodau annibynnol a benodir gan Weinidogion Cymru drwy brosesau penodiadau cyhoeddus ffurfiol, ochr yn ochr â'r Prif Weithredwr ac aelodau o'i staff. Bydd yn gosod cyfeiriad strategol ac amcanion y corff.

Rôl y bwrdd yw llywodraethu'n gryf ac arwain yn effeithiol, gweithio gyda'r aelodau gweithredol i ddiffinio a datblygu cyfeiriad strategol, a phennu amcanion heriol.

Bydd bwrdd yr Athrofa yn cynnwys:

- y Cadeirydd;
- o leiaf chwech ond dim mwy na 10 person arall a benodir gan Weinidogion Cymru;
- y Prif Weithredwr;
- o leiaf un (ond dim mwy na dau) aelod arall o staff yr Athrofa.

Ei rôl yw:

- diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a phennu amcanion heriol;
- darparu arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer rhedeg y corff; dwyn y Prif Weithredwr i gyfrif am sicrhau bod gweithgareddau'r Athrofa yn cael eu cynnal yn effeithiol ac yn effeithlon;
- hyrwyddo safonau uchel o ran arian cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- monitro perfformiad yr Athrofa i sicrhau ei bod yn ysgwyddo'i dyletswyddau, ei hamcanion, ei nodau a'i thargedau perfformiad statudol yn llawn.

Cefnogir gwaith y bwrdd gan y pwyllgorau a ganlyn:

- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Y Pwyllgor Ymchwil a Data

Llywodraethiant

Bydd y bwrdd yn hyrwyddo safonau uchel drwy gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian. Bydd yn sicrhau bod gweithgareddau'r Athrofa yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol. Bydd yn monitro perfformiad yr Athrofa i sicrhau ei bod yn bodloni ei dyletswyddau, ei hamcanion a'i thargedau perfformiad statudol yn llawn, ac yn cyflawni ei chynllun strategol a'i chynllun corfforaethol.

Bydd y bwrdd yn sefydlu trefniadau llywodraethiant trosfwaol ac yn dirprwyo rhai o'i swyddogaethau i swyddogion drwy gynllun dirprwyo sy'n cwmpasu materion ariannol ac anariannol. Bydd y Prif Weithredwr a'r tîm gweithredol yn rheoli'r sefydliad, a byddant yn atebol am redeg yr Athrofa o ddydd i ddydd.

Atodiad B

Penodi Cadeirydd i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Rôl a chyfrifoldebau

Penodir Cadeirydd yr Athrofa gan Weinidogion Cymru. Bydd y Cadeirydd yn helpu gyda'r penodiadau allweddol cychwynnol a bydd yn cyfrannu at sefydlu'r corff newydd cyn 1 Awst 2027. Unwaith y bydd yr Athrofa yn weithredol, rôl y Cadeirydd fydd datblygu ac arwain y bwrdd ac, ochr yn ochr â nhw, bydd yn pennu cyfeiriad strategol ar gyfer yr Athrofa ac yn monitro'r gwaith o gyflawni ei strategaeth fusnes, ei chynlluniau a'i hamcanion perfformiad.

Bydd y Cadeirydd yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru a benodwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am benderfyniadau a chyflawni mewn perthynas â sefydlu'r Athrofa wrth i dîm Llywodraeth Cymru oruchwylio'r cyfan. Bydd y Cadeirydd hefyd yn cyfrannu at ei chynllun strategol cychwynnol, o fewn nodau strategol Llywodraeth Cymru a'r fframwaith polisi ac adnoddau a bennir gan Weinidogion Cymru.

Rôl y Cadeirydd yw darparu **arweinyddiaeth** a **chyfeiriad strategol** o ran y canlynol:

1) darparu'r Athrofa yn effeithlon ac yn effeithiol, gan sicrhau ei bod yn barod i gyflawni ei chyfrifoldebau statudol ar ôl ei sefydlu'n ffurfiol fel corff statudol

2) y Prif Weithredwr a'r tîm gweithredu, i sefydlu'r corff erbyn 1 Awst 2027. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith i ddarparu proses bontio lyfn i staff a'i fod yn gorff hyd braich i Lywodraeth Cymru sy'n gwbl weithredol o ddiwrnod cyntaf ei lansio.

Ffocws y rôl cyn 1 Awst 2027 fydd:

- Ffurfio bwrdd cryf o aelodau ar gyfer yr Athrofa sydd ag ystod amrywiol o sgiliau, sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru ac sydd â'r gallu i ddatblygu a chyflawni blaenoriaethau strategol y sefydliad.
- Dechrau meithrin cysylltiadau â'r sector dysgu Cymraeg.

Yn ogystal, unwaith y bydd yr Athrofa wedi'i sefydlu, bydd y Cadeirydd yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer y Prif Weithredwr ac yn rheoli ei berfformiad. Bydd y Cadeirydd yn atebol yn bersonol i Weinidogion Cymru am y ffordd yr ymgymerir â materion yr Athrofa ac am ymddygiad aelodau'r bwrdd. Bydd angen iddo hefyd ddatblygu cysylltiadau gwaith cryf mewn perthynas â'r canlynol yn benodol:

- aelodau anweithredol yr Athrofa;
- cynrychiolwyr dysgwyr a darparwyr dysgu Cymraeg yng Nghymru;
- darparu cyngor ac anogaeth i'r Athrofa wrth iddi gyflawni ei chyfrifoldebau statudol a'i rhwymedigaethau ariannol.

Manyleb y Person

Bydd y Cadeirydd:

- yn arwain y bwrdd ac, ynghyd â'r bwrdd, yn pennu cyfeiriad strategol ar gyfer yr Athrofa;
- yn asesu a gwerthuso'r ffordd y caiff strategaeth fusnes, cynlluniau ac amcanion perfformiad y corff eu cyflawni;
- yn rhoi arweiniad cryf ac effeithiol ac yn dangos y gallu i weithio mewn partneriaeth ac adeiladu consensws;
- yn meddu ar y gallu i brofi barn a herio meddylfryd cyfredol;
- yn asesu hyd a lled gweledigaeth, cenhadaeth a nodau'r Athrofa;
- yn ymdrin yn hyderus â Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru a phartïon perthnasol eraill;
- yn meithrin cysylltiadau gwaith partneriaeth agos ac iach â rhanddeiliaid allweddol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol, megis Medr, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, CYDAG[1], a chyrff addysg a dysgu gydol oes eraill;
- yn cynnal, mewn ffordd sy'n glir i bawb, safonau uchaf bywyd cyhoeddus, yn bodloni gofynion egwyddorion uniondeb a gwrthrychedd Nolan[2], ac yn sicrhau parch at waith y bwrdd;
- yn hyrwyddo safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus; yn cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian; yn sicrhau bod trefniadau llywodraethiant priodol yn cael eu sefydlu a'u gweithredu i gyflawni'r cyfrifoldebau, y swyddogaethau a'r dyletswyddau cyfreithiol a osodir ar y corff;
- yn gyfrifol am reoli perfformiad y Prif Weithredwr ac aelodau'r bwrdd.

Y Meini Prawf Hanfodol

Er mwyn cael eich ystyried, **rhaid** ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.

- Profiad o arwain corff cyhoeddus, a gwybodaeth berthnasol, ynghyd â dealltwriaeth o bolisi Cymraeg 2050 a phwysigrwydd dysgu Cymraeg fel rhan o'r weledigaeth honno.
- Record ragorol o arweinyddiaeth, trawsnewid sefydliadol a datblygiad ar lefel bwrdd.
- Gallu i ddarparu arweinyddiaeth gydlynol ar gyfer yr Athrofa; diffinio a datblygu cyfeiriad strategol; pennu amcanion; dal y Prif Weithredwr i gyfrif am sicrhau bod gweithgareddau'r Athrofa yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol.
- Profiad rhagorol o ymgysylltu, ysbrydoli ac ennyn brwdfrydedd staff a rhanddeiliaid, gan weithredu mewn ffordd gynhwysol a chydweithredol sy'n cynnwys gweithio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr staff.

[1] Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg

[2] (https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life/the-7-principles-of-public-life--2)

- Mae angen sgiliau rhyngbersonol rhagorol, gan gynnwys y gallu i negodi, dwyn perswâd a dylanwadu, yn ogystal â herio a chraffu'n annibynnol ac, ar yr un pryd, cynnal perthynas adeiladol.
- Sgiliau rhesymu dadansoddol cryf a chrebwyll yn seiliedig ar allu arbenigol i brosesu a dehongli gwybodaeth.
- Dealltwriaeth glir o strwythurau llywodraethiant o fewn sefydliad a'r gallu i sicrhau yr ymdrinnir yn ddoeth ac yn systemataidd â thrafodion ariannol y corff, y cânt eu harchwilio yn yr un modd a'u bod ar gael i'r cyhoedd, gan ddangos ymrwymiad i fod yn dryloyw ac yn agored.
- Ymrwymiad ac angerdd dros y Gymraeg a chefnogi pobl i ddysgu Cymraeg.
- Dealltwriaeth glir o gydraddoldeb ac amrywiaeth ac ymrwymiad iddynt, a pharodrwydd i herio arferion sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl.
- Dealltwriaeth amlwg o'r ymrwymiadau sydd ynghlwm wrth rôl gyhoeddus.

Y Meini Prawf Dymunol

- Profiad o weithio mewn amgylchedd addysg / ymchwil.

Wrth benodi'r Cadeirydd ac aelodau'r bwrdd, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru, o dan Atodlen 2 i'r Ddeddf, roi sylw i'r ddelfryd bod gan aelodau'r Athrofa (rhyngddynt) alluoedd neu arbenigedd penodol.

Mae Gweinidogion Cymru yn chwilio am arbenigedd yn y meysydd canlynol:

(a) profiad o fater sy'n berthnasol i gyflawni swyddogaethau'r Athrofa, a gallu amlwg i wneud hynny, ac

(b) amrywiaeth o sgiliau a phrofiad

- Cefndir gweinyddol/ymchwil
- Arbenigedd ariannol - neu gymhwyster cyfrifyddiaeth
- Archwilio
- Arbenigedd ym maes cydraddoldeb/amrywiaeth

Y Gymraeg

Mae sgiliau Cymraeg yr ydych yn hyderus ynddynt (llafar, ysgrifennu a darllen) yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Cymhwysedd

Rydych yn gymwys i wneud cais os ydych yn gallu darparu tystiolaeth o'ch profiad yn erbyn pob un o'r meini prawf hanfodol a dymunol a, lle bo'n briodol, o gyfrifoldebau allweddol y Cadeirydd.

Dylai'r ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ar bob adeg ac yn ei ddatblygu ymhellach.

Sylwch, byddwch yn anghymwys i wneud cais os ydych:

- yn destun gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn interim neu wedi dod i gyfaddawd neu drefniant â'r credydwyr.
- yn destun gorchymyn anghymhwyso o dan Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986.
- yn cael eich cyflogi gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- yn Aelod o'r Senedd.
- yn aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi.
- yn aelod o Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon.
- yn aelod o awdurdod lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub).
- yn cael eich cyflogi gan wasanaeth sifil y Wladwriaeth, neu
- yn ddeiliad swydd mewn corff a nodir yn benodol gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau, neu'n aelod o'r corff neu'n aelod o staff y corff.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd y bydd bod yn aelod o fwrdd yr Athrofa yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn Aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 (legislation.gov.uk)

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, caiff y Gorchymyn hwn ei ddisodli gan un newydd ar gyfer Etholiadau'r Senedd 2026: mae cynnwys y Gorchymyn newydd yn destun ymgynghoriad tan 25 Gorffennaf 2025[3].

Gwrthdaro Buddiannau

Pan fyddwch yn gwneud cais, bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â rôl a chyfrifoldebau Cadeirydd yr Athrofa, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl o fewn yr Athrofa.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Tîm Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddewis ar gyfer cyfweliad. Bydd hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill o bosibl, chwiliadau yn y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweliad am ffrwyth y gwiriadau diwydrwydd dyladwy hyn.

Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025 drafft | LLYW.CYMRU

Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus.

Y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus (gov.uk)

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol ymgeiswyr i benderfynu pwy sy'n bodloni orau y meini prawf ar gyfer y rôl, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'ch datganiad yn unig i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Bethan Webb a bydd hefyd yn cynnwys dau aelod annibynnol.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel dethol i'w ystyried. Sylwch ei bod yn bosibl na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod mis Hydref 2025 pwy fydd yn cael eu gwahodd am gyfweliad ym mis Tachwedd 2025. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni orau y meini prawf a nodwyd ym manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad a'ch bod yn bodloni **meini prawf hanfodol** y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad wedi'i nodi eisoes yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu, ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi os ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni meini prawf** y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidog, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cwrdd â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Gadeirydd yr Athrofa, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, cewch wybod drwy ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru. Rydym yn sylweddoli bod ymgeisio am rôl yn gofyn am lawer o amser ac ymdrech, a bod rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, bydd y llythyr yn nodi â phwy y gallwch gysylltu i gael adborth ar eich cais a'ch cyfweliad, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu pob cais mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn deg ac yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.